

Neil Ayling
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyngor Sir y Fflint
Neuadd y Sir
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
CH7 6NB

Dyddiad: 04 Dachwedd 2021

Annwyl Gyfarwyddwr,

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) – Archwiliad Sicrwydd 2021: Cyngor Sir y Fflint

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi canfyddiadau ein archwiliad sicrwydd a gynhaliwyd rhwng 19 a 23 Ebrill 2021. Pwrpas yr archwiliad sicrwydd hwn oedd gweld pa mor dda y mae gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol yn parhau i helpu a chefnogi oedolion a phlant, gan ganolbwyntio ar ddiogelwch a llesiant.

Roedd ein prif lwybrau ymholi yn seiliedig ar bedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ac rydym wedi cofnodi ein barn a'n canfyddiadau yn unol â'r rhain, sef: Pobl – Llais a Rheolaeth, Atal, Llesiant, Partneriaethau ac Integreiddio.

Trosolwg

Ym mis Mawrth 2020, gohiriodd AGC ei rhaglen arferol mewn ymateb i bandemig COVID-19 er mwyn galluogi darparwyr ac awdurdodau lleol i ganolbwyntio'n llawn ar ymateb i'r amgylchiadau heriol. Ailddechreuodd rhaglen ddiwygiedig gydag awdurdodau lleol ym mis Medi er mwyn rhoi sicrwydd ynghylch sut mae pobl yn cael eu diogelu a sut mae eu llesiant yn cael ei hyrwyddo yn ystod y pandemig. Gwnaethom ystyried diogelwch a llesiant y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, neu y gall fod angen iddynt eu defnyddio, diogelwch y gwasanaethau y maent yn eu defnyddio a diogelwch a llesiant y bobl sy'n gweithio yn y gwasanaethau hynny. Roedd ein prif lwybrau ymholi yn seiliedig ar bedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac rydym wedi cofnodi ein barnau a'n canfyddiadau yn unol â'r rhain: Pobl – Llais a Rheolaeth, Atal, Partneriaethau ac Integreiddio, Llesiant.

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
Swyddfa Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
LL31 9RZ
www.arolygiaethgofal.cymru

☎ 0300 790 0126
✉ CIW@gov.wales

Care Inspectorate Wales (CIW)
Swyddfa Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Llandudno Junction
LL31 9RZ
www.careinspectorate.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gwnaethom ganolbwyntio ar y canlynol:

1. Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn cyflawni ei swyddogaethau statudol o ran cadw pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt yn ddiogel, a hyrwyddo eu llesiant, yn ystod y pandemig?
2. Beth mae'r awdurdod lleol yn ei wneud fel nad oes angen i blant dderbyn gofal; ac a yw plant yn dychwelyd adref i'w teuluoedd yn ddigon cyflym, lle mae'n ddiogel iddynt wneud hynny?

Crynodeb o'r canfyddiadau a blaenoriaethau ar gyfer gwella

Pobl – llais a rheolaeth – Gwnaethom ofyn: Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod lleisiau pobl, gofalwyr ac ymarferwyr yn cael eu clywed, eu bod yn gwneud dewisiadau ar sail gwybodaeth ac yn cynnal rheolaeth dros eu bywydau, gan gydbwysu hefyd yr argymhellion a'r gofynion a wnaed gan lechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru er mwyn cyfyngu ar ledaeniad COVID-19?

Mae'r bobl yn cael eu cynnwys yn y gwaith o gynllunio a datblygu eu gwasanaethau gofal a chymorth. Maent yn cael eu cefnogi i nodi'r hyn sy'n bwysig iddynt a sut y gallent gyflawni eu canlyniadau llesiant personol. Yn y rhan fwyaf o achosion a welsom, roedd y canlyniadau'n glir ac roedd y camau gweithredu i'w cyflawni wedi'u nodi'n glir.

Roedd tystiolaeth i ddangos bod y bobl yn cael eu cefnogi gan eiriolwyr anffurfiol i gymryd rhan mewn asesiadau a phenderfyniadau sy'n effeithio arnynt, a bod plant a theuluoedd yn cael eu cefnogi gan gyfeillion er mwyn sicrhau bod eu safbwyntiau'n cael eu mynegi mewn cynadleddau achosion amddiffyn plant. Mae'r awdurdod lleol yn ystyried hawliau plant i gael cynnig eiriolaeth ffurfiol. Er ein bod wedi clywed a gweld enghreifftiau o'r eiriolaeth hon yn cael ei chynnig, nid oedd bob amser yn cael ei derbyn. Wrth siarad â'r ymarferwyr, roedd yn gadarnhaol gweld eu bod yn ystyried eu hunain yn eiriolwyr dros y plant y maent yn gweithio gyda nhw, ond roedd yn llai amlwg bod dealltwriaeth a rennir o werth ychwanegol a swyddogaeth eiriolaeth annibynnol. Mae hyn yn faes y mae angen i'r ymarferwyr roi sylw iddo, er mwyn sicrhau y caiff eiriolaeth anffurfiol a ffurfiol ei hystyried yn gyson, fel y nodir yn Rhan 10 o'r Cod Ymarfer ar gyfer Deddf 2014.

Cydnabuwyd y pwysau ychwanegol ar ofalwyr yn ystod y pandemig. Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod anghenion gofalwyr, gan gynnwys gofalwyr ifanc, yn cael eu hystyried a'u cefnogi'n briodol ochr yn ochr â'r person sy'n derbyn gofal.

Roedd y bobl, gan gynnwys y gofalwyr, yn cael y cyfle i deilwra a rheoli eu gofal eu hunain drwy ddefnyddio taliadau uniongyrchol. Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod taliadau uniongyrchol yn gweithio'n dda i unigolion a gofalwyr, a'u bod wedi cael eu defnyddio'n greadigol yn ystod y pandemig fel ffordd o roi gofal seibiant amgen.

Mae Tîm Taliadau Uniongyrchol Sir y Fflint yn mynd i'r afael â heriau recriwtio a chadw cynorthwywyr personol. Mae'r tîm wedi ail-ddylunio'r dudalen we ar daliadau uniongyrchol ac wedi creu'r Porth Cynorthwywyr Personol. Mae'r dudalen we yn rhoi'r wybodaeth a'r

cyngor sydd eu hangen ar bobl i'w galluogi i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth, a nod y porth yw helpu pobl i chwilio am gynorthwyr personol yn ogystal â helpu cynorthwyr personol i ddod o hyd i swyddi addas. Ochr yn ochr â'r darparwr dysgu, mae'r tîm yn dylunio hyfforddiant penodol ar gyfer cynorthwyr personol sy'n cynnwys Tystysgrif Sefydlu, a fydd ar gael i bob cyflogwr sydd am gynnig hyfforddiant a chyfleoedd datblygu i'w cynorthwyr personol.

Dyweddodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw wrthym fod yr awdurdod lleol wedi cadw mewn cysylltiad â nhw, a hynny mewn ffordd ddiogel, drwy gydol y pandemig. Lle y bo angen, mae cyswllt wyneb yn wyneb diogel uniongyrchol wedi parhau, yn amodol ar asesiad risg COVID-19 a Chanllawiau Iechyd y Cyhoedd. Gwelsom enghreifftiau o ymarferwyr a darparwyr yn gweithio'n greadigol i gyflawni eu cyfrifoldebau proffesiynol, er mwyn sicrhau bod lleisiau'r bobl yn cael eu clywed.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymarferwyr a ymatebodd i'n harolwg yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan eu cydweithwyr a'u rheolwyr ac roeddent o'r farn eu bod yn gallu ymdopi â'u llwyth gwaith. Gwelsom fod y gweithlu yn wybodus ac yn ymroddedig, a bod yr ymarferwyr yn canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau cadarnhaol i'r bobl. Er bod nifer bach o'r ymarferwyr wedi nodi bod swyddi gwag ac achosion o salwch wedi rhoi pwysau ar rai timau, ar y cyfan, gwelsom fod morâl yn dda a bod yr ymarferwyr yn gadarnhaol am eu profiad o weithio i'r awdurdod lleol. Dywedodd y staff eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, a bod y rheolwyr yn gefnogol ac yn hawdd mynd atynt. Gwnaethant ddweud hefyd fod yr uwch-reolwyr yn weladwy ac yn ymatebol.

Mae cyfleoedd hyfforddi wedi parhau ac mae nifer o lwyfannau digidol wedi'u defnyddio er mwyn galluogi'r gweithlu i gael hyfforddiant ar-lein. Mae Cyngor Sir y Fflint yn parhau i gefnogi datblygiad proffesiynol yr ymarferwyr a'r rheolwyr. Dywedodd y staff newydd gymhwyso wrthym eu bod yn cael eu cefnogi yn ystod eu blwyddyn gyntaf o ymarfer drwy oruchwyliaeth reolaidd, trefniadau mentora, a llwyth achosion wedi'i ddiogelu. Dywedodd un uwch-ymarferydd wrthym am y cymorth a gomisiynwyd gan yr awdurdod lleol i feithrin ei sgiliau arwain.

Atal – Gwnaethom ofyn: I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn llwyddo i hybu prosesau atal a lleihau'r angen am fwy o gymorth neu gymorth ffurfiol gan asiantaethau statudol? Gan gynnwys cymryd pob cam sydd ei angen i sicrhau mai teulu'r plentyn fydd yn magu'r plentyn, a chefnogi pobl â phroblemau iechyd meddwl cyn i bethau droi'n argyfwng.

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi gweithio'n galed i sicrhau bod atal yn rhan annatod o fusnes yr awdurdod lleol, ac mae pwysigrwydd cymorth cymunedol wedi'i gydnabod yn ystod y pandemig.

Gwelsom fod dull gweithredu integredig cadarnhaol ar waith a oedd wedi arwain at ddiwylliant o atal drwy gydweithio, seilweithiau cefnogol, a systemau cyflawni cyson. Un enghraifft amlwg oedd dull darbodus o ddyrannu adnoddau, gan sicrhau bod y cymorth cywir ar gael ar yr adeg gywir. Mae hyn yn atal cynnydd mewn angen ac yn gwella ansawdd taith yr unigolyn drwy'r system iechyd a gofal cymdeithasol.

Ym maes gwasanaethau oedolion, gwelsom fod ffocws ar atal a chymorth wedi'i dargedu, a bod adnoddau cam-i-fyny/cam-i-lawr a chymunedol ar gael i gefnogi pobl. Roedd hyn yn

cynnwys gweithwyr dementia arbenigol, y gallu i gael gafael ar gyfarpar yn amserol, mân addasiadau, a thechnoleg gynorthwyol. Clywsom fod y dull sy'n canolbwyntio ar atebion ym maes iechyd meddwl yn atal pobl rhag gorfod cael gwasanaethau mwy dwys.

Ym maes gwasanaethau plant, ffocws yr Hwb Cymorth Cynnar yw helpu rhieni i ddatblygu eu galluedd eu hunain, eu dulliau ymdopi a'u cryfderau er mwyn nodi problemau a'u rheoli. Roedd yr ymarferwyr yn gwerthfawrogi'r adnoddau sydd ar gael i gefnogi sefydlogrwydd lleoliadau, gwella llesiant emosiynol a meithrin dealltwriaeth well o faterion ymddygiadol plant. Clywsom fod gweithio'n agosach gydag asiantaethau yn ystod y pandemig wedi helpu'r awdurdod i feithrin gwell ymwybyddiaeth a rennir o'r amrywiaeth o wasanaethau ataliol cymunedol sydd ar gael i blant a theuluoedd. Nododd yr ymarferwyr fod cynnwys cynrychiolaeth o'r gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed (CAMHS) yn yr Hwb Cymorth Cynnar yn ystod y pandemig yn gryfder sylweddol. Fodd bynnag, mae angen sicrhau y caiff y dystiolaeth/gwaith dadansoddi sy'n llywio penderfyniadau yn yr Hwb Cymorth Cynnar eu cofnodi'n gyson er mwyn sicrhau bod y bobl yn cael y gefnogaeth a'r cymorth cywir ar yr adeg gywir.

Mae'r uwch-reolwyr yn meddu ar ddealltwriaeth a gwybodaeth dda am broffil y plant sy'n derbyn gofal. Ystyrir bod llesiant y plant yn flaenoriaeth ym mhob penderfyniad cynllunio, a cheir ymrwymiad cryf i'r agenda ataliol ac i leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal. Mae'r awdurdod lleol wedi buddsoddi mewn Therapi Aml-Systemig, a chlywsom fod y tîm wedi gweithio i alluogi plant sy'n wynebu risg o ddod yn rhan o'r system ofal i aros gyda theuluoedd heb orfod troi at wasanaethau statudol.

Partneriaethau ac Integreiddio – Gwnaethom ofyn: I ba raddau y gall yr awdurdod lleol fodloni ei hun yr achubir ar gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth mewn ffordd gadarnhaol er mwyn gwneud y mwyaf o gynlluniau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a sicrhau y darperir gwasanaethau integredig mewn modd cynaliadwy?

Gwelsom fod partneriaethau'n gweithio'n dda ar bob lefel a'u bod yn darparu dull cynaliadwy integredig o ddiwallu anghenion a hybu llesiant, yn unol â deddfwriaeth a disgwyliadau. Yn yr achosion a welsom, roedd tystiolaeth o ymarferwyr yn meithrin cydberthynas waith broffesiynol â'r bobl yn seiliedig ar gydweithrediad i hyrwyddo annibyniaeth a meithrin dealltwriaeth a rennir o'r hyn sy'n bwysig.

Dywedodd yr uwch arweinwyr a'r partneriaid a ymatebodd i'n harolwg wrthym fod y bartneriaeth strategol rhwng Cyngor Sir y Fflint a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi datblygu a chryfhau yn ystod y pandemig. Cydweithiodd y partneriaid â'i gilydd yn ystod cyfnod cynnar y pandemig i baratoi Ysbyty Enfys yng Nglannau Dyfrdwy, yn ogystal ag ehangu'r ddarpariaeth cartrefi gofal i leihau'r pwysau ar ysbytai a sicrhau canlyniadau llesiant cadarnhaol i bobl Sir y Fflint.

Disgrifiodd y rheolwyr a'r ymarferwyr gydberthnasau gweithredol sefydledig â'r partneriaid ac ymrwymiad clir i gydweithio ym mhob rhan o'r awdurdod.

Mae'r defnydd cynyddol o lwyfannau digidol hefyd wedi golygu bod asiantaethau'n cyfrannu'n fwy effeithiol at gyfarfodydd strategol, gan gynnwys adolygiadau a thrafodaethau ynghylch y strategaeth ddiogelu.

Dyweddodd yr ymarferwyr wrthym nad oedd rhai o'r partneriaid allweddol wedi cynnal ymweliadau wyneb yn wyneb tan yn ddiweddar, a bod hyn wedi llesteirio'r broses o gwblhau asesiadau a chynllunio gofal yn ystod y pandemig. Siaradodd y darparwyr yn gadarnhaol am y cymorth roeddent wedi'i gael gan yr awdurdod lleol yn ystod y pandemig. Roeddent yn gwerthfawrogi lefel y cyfathrebu ac ansawdd y cyngor a'r cymorth a gafwyd.

Roedd y dull gweithredu strategol a roddwyd ar waith gan yr awdurdod lleol yn ystod y pandemig wedi hwyluso gwaith cydweithredol wedi'i dargedu ar draws portffolios a gwasanaethau. Ym maes gwasanaethau plant, er enghraifft, gwelsom fod cydberthynas waith effeithiol rhwng y gwasanaethau plant a'r gwasanaeth addysg i nodi'r plant mwyaf agored i niwed a darparu'n briodol ar eu cyfer yn ystod y pandemig. At hynny, gwelsom fod partneriaid yn gweithio'n greadigol gyda'r gwasanaethau plant i gefnogi teuluoedd. Dywedodd rhieni wrthym eu bod yn gwerthfawrogi'r pecyn gofal a'r gweithgareddau a ddatblygwyd gyda Swyddogion Chwarae, Theatr Clwyd ac 'Aura Sports' yn fawr, a oedd yn rhoi'r cyfle i blant a phobl ifanc roi cynnig ar rywbeth gwahanol yn ystod gwyliau'r ysgol. Ym maes gwasanaethau oedolion, clywsom fod adrannau yn yr awdurdod lleol wedi cydweithio i nodi adeilad i'w ddefnyddio fel Hwb Cyfarpar Diogelu Personol Gogledd-ddwyrain Cymru. O fewn tridiau i gaffael yr adeilad, roedd y gwasanaeth yn gwbl weithredol, gan alluogi Gwasanaeth Cyfarpar Cymunedol Gogledd-ddwyrain Cymru i sefydlu system gyflenwi effeithlon yn brydlon.

Llesiant – Gwnaethom ofyn: I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn hybu llesiant, gan sicrhau bod pobl yn aros yn ddiogel ac yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol sydd o bwys iddynt?

Mae Cyngor Sir y Fflint yn cael budd o dîm profiadol o uwch-reolwyr. Mae ymrwymiad clir a chymorth gwleidyddol ar gyfer gwasanaethau oedolion a gwasanaethau plant a dealltwriaeth dda o'u cryfderau a'u heriau presennol.

Mae'r awdurdod lleol wedi arfer ei swyddogaethau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac mae'n sicrhau ei fod yn cyfrannu'n gadarnhaol at lesiant pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt.

Roedd amseroldeb ac ansawdd yr adolygiadau statudol a welwyd yn dda ym maes gwasanaethau oedolion a gwasanaethau plant. Ym maes gwasanaethau plant, gwelsom arferion da mewn perthynas ag ysgrifennu cofnodion yn uniongyrchol i'r plentyn, cydnabod dymuniadau'r plentyn, ac esbonio canlyniadau a phenderfyniadau ei adolygiad mewn iaith syml. Dywedodd y swyddogion adolygu annibynnol wrthym eu bod yn cysylltu â'r plant cyn yr adolygiad, ac roedd yn gadarnhaol gweld eu bod yn cynnal gwiriadau canol cyfnod o gynnydd. Gwelsom fod materion yn cael eu huwchgyfeirio yn ôl yr angen a bod y cydberthnasau rhwng gweithwyr proffesiynol yn cael eu cefnogi drwy ddull datrys yn gynnar adeiladol.

Gwelsom arferion cymysg mewn perthynas â pha mor dda roedd yr awdurdod lleol yn ymateb i faterion diogelu plant. Roedd yr enghreifftiau gorau yn cynnwys ymateb yn amserol a chasglu gwybodaeth yn brydlon er mwyn helpu i fynd i'r afael â phryderon amddiffyn plant. Fodd bynnag, yn rhai o'r ffeiliau achos, gwelsom fod oedi wedi bod cyn ymateb ac wrth ddatblygu cynlluniau diogelwch amlasiantaeth. Dylai'r awdurdod lleol adolygu'r ffordd y mae'n cynnal ymchwiliadau diogelu er mwyn sicrhau y caiff anghenion

unigol pob plentyn eu nodi a'u diwallu, ac y caiff cynlluniau diogelwch eu llunio yn sgil hynny. Dylai'r awdurdod lleol fodloni ei hun y caiff plant eu gweld, a'u gweld ar eu pen eu hunain, fel y bo'n briodol, yn ystod cyfnod yr ymchwiliad, ac y caiff grwpiau craidd ar gyfer plant a enwir ar y gofrestr amddiffyn plant eu cynnal yn gyson yn unol â'r gofynion statudol.

Yn y ffeiliau achos a welsom, roedd yr adroddiadau diogelu oedolion wedi'u sgrinio a'r ymchwiliadau wedi'u cynnal yn unol â'r gofynion statudol. Roedd y trafodaethau a'r cyfarfodydd diogelu yn cynnwys y bobl gywir ac yn dangos cydberthnasau gwaith proffesiynol â'r timau rheoli gofal a'r partneriaid allweddol. Roedd y darparwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y tîm diogelu, ac roeddent yn gwerthfawrogi parodrwydd y tîm i gynnig cyngor ac arweiniad.

Deallir pwysigrwydd rhyddhau cleifion yn amserol o'r ysbyty, ac mae hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r awdurdod lleol a'r partneriaid. Yn ystod y pandemig, mae'r awdurdod lleol wedi ceisio hybu llesiant y bobl y mae angen gofal a chymorth arnynt drwy greu capasiti ychwanegol i hwyluso'r broses o ryddhau cleifion yn ddiogel a chefnogi pobl gartref, gan osgoi derbyniadau diangen i'r ysbyty drwy hynny. Mae'r awdurdod lleol wedi rhoi'r model rhyddhau i asesu ar waith ac, yn yr achosion a welsom, roedd ffocws ar gefnogi pobl i adfer eu hannibyniaeth a'u galluogi i ddychwelyd adref yn unol â'u dymuniadau.

Er bod y newid mewn patrymau gwaith mewn ymateb i'r pandemig wedi creu heriau, mae'r awdurdod lleol hefyd wedi mabwysiadu dull rhagweithiol ac arloesol o hybu llesiant y bobl. Yn ystod y gwiriad sicrwydd, rhannwyd llawer o enghreifftiau cadarnhaol â ni o'r ffordd yr ymatebodd y bartneriaeth i'r pandemig. Roedd hyn yn cynnwys hybu llesiant y bobl drwy fenthycu iPad's iddynt er mwyn eu galluogi i ffonio teulu/ffrindiau, cymryd rhan mewn gweithgareddau ar-lein, a manteisio ar wasanaethau megis ymgynghoriadau rhithwir â'r meddyg teulu.

Mae'r awdurdod lleol wedi parhau i nodi cyfleoedd i ddefnyddio'r rhaglen drawsnewid bresennol i integreiddio hyn ymhellach, yn ogystal â datblygu modelau gofal a chymorth newydd i wella canlyniadau'r bobl.

Dull:

- gwnaethom fwrw golwg dros y ddogfennaeth a ddarparwyd cyn ein hymweliad
- gwnaethom siarad â gofalwyr a phobl a oedd yn derbyn, neu wedi derbyn, gofal a chymorth
- gwnaethom edrych ar 26 o ffeiliau achos
- gwnaethom gynnal trafodaethau olrhain achosion ar 10 o ffeiliau achos pellach
- gwnaethom gynnal wyth arolwg
- gwnaethom gynnal chwe grŵp ffocws

Y Camau Nesaf

Rydym wedi nodi cryfderau a meysydd i'w gwella fel blaenoriaeth, a byddwn yn adolygu cynnydd y meysydd hyn drwy ein cyfarfodydd adolygu gwerthuso perfformiad â'r penaethiaid gwasanaeth a'r cyfarwyddwr. Rydym yn disgwyl y bydd y meysydd i'w gwella a

nodwyd gennym yn cael eu cynnwys yng nghynlluniau gwella'r awdurdod lleol. Hoffem ddiolch i bawb a wnaeth ein helpu i gynnal y gwiriad sicrwydd hwn ac i'r bobl a'r staff hynny a siaradodd â ni.

Gweler ein Hysbysiad Preifatrwydd yn <https://arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-bersonol>

Yn gywir,



Lou Bushell-Bauers

Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol

Arolygiaeth Gofal Cymru